**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Entrepreneuriaeth Ieuenctid**

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar Entrepreneuriaeth Ieuenctid yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes ar 13 Tachwedd 2013.

Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru a dal i gyflawni'r camau sydd yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, strategaeth ar y cyd rhwng Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau. Rydym yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod cryfder ein hymrwymiad ac ystod y cynlluniau sydd wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r nod hwnnw. Rydym yn croesawu'r argymhellion a'r sylw y mae'r pwyllgor yn ei roi i'r agenda bwysig hon.

Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn, yn gwneud cynnydd da ac mae Datganiad Ysgrifenedig wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd diweddariad hefyd sy'n rhoi manylion ar gyfer pob un o'r deg Prif Gam Gweithredu, allbynnau, effaith a cherrig milltir allweddol ar wefan Syniadau Mawr Cymru.

http://ms.fs4b.wales.gov.uk/sub_sites/big_ideas_wales/content/about_us/yes_action_plan_2010/annual_report.aspx?lang=cy-gb

Mae gweithredu Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i hyrwyddo twf economaidd a darparu swyddi i bobl ifanc.

Mae ymateb manwl i'r 10 argymhelliad ynghyd â chamau gweithredu manwl a nodwyd gan y Pwyllgor i'w gweld isod.

### ***Argymhelliad 1***

*Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r diffyg cysylltiad rhwng lefel y diddordeb a'r awydd am entrepreneuriaeth ymysg yr ifanc a nifer gwirioneddol y busnesau a gaiff eu dechrau gan bobl ifanc a darganfod beth yw'r ffordd orau o gau'r bwlch hwnnw.*

**Ymateb: Derbyn**

- Er bod 53% o'r bobl ifanc dan 25 oed bellach yn dweud y byddent yn hoffi gweithio iddynt hwy eu hunain a rhedeg eu busnes eu hunain, cynnydd o 42% yn 2004 (Arolwg Omnibws Cymru 2013), a bod cynnydd i'w weld yn nifer y bobl ifanc sy'n sefydlu busnes, gellid gwneud rhagor i bontio'r bwlch.

- Mae cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar oedolion ifanc rhwng 18 a 24 oed wedi treblu yng Nghymru o 3 y cant yn 2004 i 9.5 y cant yn 2012 ac mae'n dal yn uwch na chyfradd gyfartalog y Deyrnas Unedig, sef 8.3 y cant. (Adroddiad Monitor Entrepreneuriaeth y Byd 2013)

- Mae Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes 2013 (HEBCIS) hefyd yn nodi bod 5% o boblogaeth Addysg Uwch y Deyrnas Unedig mewn prifysgolion yng Nghymru, ond eu bod yn gyfrifol am 9.1% o'r holl fusnesau sy'n cael eu dechrau

gan raddedigion yn y Deyrnas Unedig a bod 11.33% o'r busnesau sy'n cael eu sefydlu yn para am 3 blynedd neu ragor.

- Er gwaetha'r dangosyddion cadarnhaol hyn gellid gwneud rhagor i bontio'r bwlch rhwng yr awydd i ddechrau busnes a llwyddo i ddechrau busnes.

- Bydd gwasanaethau newydd a gyflwynwyd yn 2013, fel rhan o raglen gyllid dair blynedd, yn ceisio mynd i'r afael â bylchau posibl a nodwyd gan ymchwil. Yn fwyaf arbennig, bydd y gwasanaethau newydd yn helpu drwy gynorthwyo entrepreneuriaid ifanc i gymryd camau i ddechrau busnes. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys nifer o wahanol ddigwyddiadau a sioeau teithiol i ddatblygu syniadau, rhannu profiadau gydag entrepreneuriaid a'u cyfeirio at wasanaethau cefnogi a Her newydd yn cael ei harwain gan entrepreneuriaid ar gyfer darpar entrepreneuriaid 16-24 oed.

- Ymgorfforir y rhain mewn gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r rhaglen newydd sy'n cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn cynnwys gweithgareddau i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng yr awydd i ddechrau busnes a llwyddo i ddechrau busnes. O dan y cynllun hwn bydd gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn rhan o'r gwasanaeth dechrau busnes ehangach fel bod modd darparu cefnogaeth ddi-dor ar bob cam o'r daith.

**Goblygiadau Ariannol** – Wedi'i gynnwys yn y gyllideb bresennol ac i'w ystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd.

***<u>Argymhelliad 2</u>***

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio i wella cysondeb y data sydd ar gael ar entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc, a monitro a gwerthuso'n drylwyr y cynnydd a wneir a'i gymharu â gwledydd eraill. Dylid ceisio casglu rhagor o wybodaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau, fel effaith entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc ar economi Cymru yn ehangach, ac olrhain cynnydd pobl ifanc yn yr hirdymor yn dilyn addysg mentergarwch, gan gynnwys rhannu'r wybodaeth yn ôl y rhywiau*.

**Ymateb: Derbyn**

- Mae Panel y Cynllun Gweithredu IE wedi datblygu fframwaith i fynegi effeithiau'r Cynllun Gweithredu IE yn glir. Penodwyd y Panel am gyfnod o ddwy flynedd a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2013. Er mwyn sicrhau agwedd fwy cyfannol at entrepreneuriaeth, mae'r Gweinidog wedi sefydlu un Panel Entrepreneuriaeth cyffredinol a fydd yn ymgorffori gwaith Panel blaenorol y Cynllun Gweithredu IE. Bydd y Panel Entrepreneuriaeth a benodwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfarwyddyd a gwybodaeth arbenigol i'r Gweinidog ynglŷn â datblygu strategaeth entrepreneuriaeth a mesurau perfformiad a bydd yn defnyddio perfformiad ar sail y fframwaith i ddangos y cyfeiriad strategol y dylai'r gwasanaethau anelu tuag ato yn y dyfodol.

- Mae'r swyddogion yn gweithio mewn cysylltiad agos â grŵp arbenigol y Comisiwn Ewropeaidd ar ddata a dangosyddion dysgu entrepreneuraidd a chyflwynasant y fframwaith yn ddiweddar i grŵp o arbenigwyr ym Mrwsel a oedd

yn cynnwys y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd, Ymddiriedolaeth Carnegie a Monitor Entrepreneuriaeth y Byd.

- Mae gwerthusiadau hydredol o weithgaredd entrepreneuraidd yn cael eu gwneud er 2002. Yn unol â'r fframwaith ein prif ddangosydd yw Adroddiad Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM).

- Ar lefel disgyblion unigol mae'r Adran Addysg a Sgiliau'n bwriadu dechrau cofnodi data am weithgareddau entrepreneuriaeth yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Ein bwriad ar hyn o bryd yw dechrau cofnodi data sy'n ymwneud â'r canlynol;

  - A yw disgyblion unigol wedi cael rhywfaint o weithgaredd entrepreneuraidd ai peidio?

  - Faint o weithgareddau menter y mae'r unigolyn wedi ymwneud â hwy?

  - A oedd cyflogwr yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd menter?

- Er hyn, bydd angen i ni gytuno ar union nifer y cwestiynau sydd i'w cynnwys yn CYBLD, ac ar gynnwys y cwestiynau hynny, gan sicrhau nad yw cofnodi rhagor o ddata'n golygu mwy o faich i ysgolion. Mae'n debyg y bydd cyfnod arweiniol o ddwy flynedd cyn y bydd y datblygiad hwn yn cael ei roi ar waith.

- Mae'r prif fesurau perfformiad ar gyfer y sector ôl-16 yn seiliedig ar ganlyniadau dysgwyr ac yn canolbwyntio ar gael cymwysterau. Cesglir data drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a chyhoeddir hwy'n flynyddol ar ffurf datganiad ystadegol. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau ar hyn o bryd yn ystyried datblygu mesur ar gyfer cyrchfannau er mwyn dangos beth yr aeth carfan benodol o ddysgwyr ymlaen i'w wneud, er enghraifft, addysg bellach, cyflogaeth neu addysg uwch. Gwneir hyn drwy gyfateb nifer o wahanol ffynonellau data (CYBLD, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, HESA ac ati). Er mwyn ystyried a ellir / a ddylid cyflwyno system dracio benodol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael addysg menter bydd angen i'r Adran Addysg a Sgiliau asesu a ellir nodi cymwysterau penodol mewn ffynonellau data perthnasol a gwerthuso a yw'n bosibl gwneud y dadansoddiad hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae elfen ar gyfer yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi'i chynnwys yn y gyllideb bresennol a bydd yn cael ei hystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Byddai sefydlu astudiaeth olrhain hydredol i edrych ar gynnydd pobl ifanc yn dilyn addysg fenter, gan gynnwys rhannu'r wybodaeth yn ôl y rhywiau, yn arwain at oblygiadau ariannol i'r Adran Addysg a Sgiliau. Os penderfynir bwrw ymlaen ag astudiaeth o'r fath yn dilyn asesiad o ddichonoldeb a gwerth am arian, telir y costau o'r gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid BE 4760L.

Element for ES&T is included within current budget and to be taken into consideration in the development of the new ES&T EU funded programme. There would be financial implications for DfES to setting up a longitudinal tracking study of young people's progress following enterprise education, including disaggregation according to gender. If following an assessment as to feasibility and value for money

it is decided to proceed with such a study, costs will be budgeted from Youth Engagement and Employment BE 4760L

***Argymhelliad 3***

*Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid newid y diwylliant o amgylch entrepreneuriaeth, a gweithio gyda phartneriaid fel Ymddiriedolaeth y Tywysog i wireddu yn benodol uchelgais pobl ifanc sydd wedi'u hymddieithrio. Gallai Gweinidogion ystyried cynnal cynhadledd flynyddol i bobl ifanc, eu haddysgwyr a'u rhieni, er mwyn iddynt gael eu hysbrydoli gan entrepreneuriaid ifanc llwyddiannus.*

**Ymateb: Derbyn**

- Mae entrepreneuriaeth yn ffactor pwysig er mwyn sbarduno twf economaidd, datblygu cystadleurwydd a chreu swyddi. Cydnabyddir arwyddocâd creu diwylliant sy'n cefnogi entrepreneuriaeth a bydd yn cael ei ystyried gan y Panel Entrepreneuriaeth newydd.

- Mae'r swyddogion yn gweithio mewn cysylltiad agos â sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog i gynorthwyo pobl ifanc 18-30 oed sy'n ddi-waith a dan anfantais i ystyried a yw eu syniadau busnes yn hyfyw ac a yw hunangyflogaeth yn addas iddynt hwy.

- Ym mis Rhagfyr 2012, cymeradwyodd y Gweinidog gyllid refeniw ar gyfer cymorth ariannol tymor byr, hyd at fis Mawrth 2014, i Raglen Fenter Ymddiriedolaeth y Tywysog. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi tua 98 o fusnesau newydd sydd wedi'u dechrau gan bobl ifanc nad oeddent mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (NEET) cyn hynny.

- Cyflwynwyd bwrsariaethau entrepreneuriaid ifanc fel rhan o Dwf Swyddi Cymru. Mae'r fwrsariaeth wedi'i hanelu at bobl ifanc 16-24 oed sy'n dechrau busnes. Dyfarnwyd 59 o fwrsariaethau yn 2012/13.

- Bydd gwasanaethau'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth, a fydd yn cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, yn cael eu datblygu yn y dyfodol, ac yn unol â hynny bydd yn rhaid ystyried datblygu cyfres o weithgareddau allweddol i hybu ac ennyn diddordeb entrepreneuriaid megis cynhadledd flynyddol i bobl ifanc.

- Mae'r rhaglen Hyfforddeiaethau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn ceisio cynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith parhaol drwy eu helpu â'u hyder a'u cymhelliant a mynd i'r afael â ffactorau sy'n atal dysgu. Mae'r rhaglen yn ceisio gwella lefelau sgiliau drwy ddarparu cymwysterau lefel mynediad hyd at NVQ Lefel 1 mewn maes galwedigaethol a ddewiswyd. Mae'r rhaglen yn cynnwys darparu cymwysterau sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd allweddol. Bydd adolygiad mewnol o'r rhaglen Hyfforddeiaethau yn ystyried beth yw'r ffordd orau o wella'r modd y cyflwynir gweithgareddau entrepreneuriaeth mewn Hyfforddeiaethau. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo hunangyflogaeth fel ffordd bosibl o symud ymlaen o'r rhaglen (lle bo'n briodol) a darparu gweithgareddau yn y rhaglen gyfan sy'n meithrin ysbryd entrepreneuraidd mewn pobl ifanc. Datblygir hyn ar y cyd â Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

- Credwn mai Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i wybod pa ddarpariaeth sydd ei hangen yn eu hardaloedd ac a oes bwlch yn y ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. Drwy Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid rydym wedi gofyn i Awdurdodau Lleol gryfhau eu cofnod o'r ddarpariaeth bresennol a defnyddio hyn i nodi bylchau, anghenion heb eu diwallu neu wasanaethau sy'n cael eu dyblygu o fewn y ddarpariaeth bresennol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod llwybr darpariaeth yn bodoli ar gyfer pob person ifanc a bod y llwybr hwn yn eu helpu i symud ymlaen. Dylai'r gwaith cofnodi hwn gynnwys darpariaeth sy'n annog entrepreneuriaeth. Rydym wedi gofyn am fap sylfaenol gan Awdurdodau Lleol cyn diwedd mis Mawrth 2014. Gellir defnyddio'r grant 14-19 yn 2014-15 i gyflenwi adnoddau ar gyfer darpariaeth i gadw diddordeb pobl ifanc mewn dysgu.

- Byddwn yn parhau i gyflwyno elfen hunangyflogaeth lwyddiannus Twf Swyddi Cymru sydd hyd yn hyn (ystadegau swyddogol Twf Swyddi Cymru Hydref 2013) wedi cynorthwyo 124 o bobl ifanc i sefydlu eu busnesau eu hunain. Bydd y gwerthusiad o'r rhaglen a fydd ar gael cyn bo hir yn ein helpu i benderfynu sut y dylid datblygu'r elfen hon.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae elfen ar gyfer yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi'i chynnwys yn y gyllideb bresennol a bydd yn cael ei hystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Byddai cynnal cynhadledd flynyddol ar gyfer pobl ifanc, eu haddysgwyr a'u rhieni i gael ei hysbrydoli gan entrepreneuriaid ifanc llwyddiannus yn arwain at oblygiadau ariannol i'r Adran Addysg a Sgiliau a byddai angen ystyried ei heffaith ddisgwyliedig a'r gwerth y mae'n ei gynnig am yr arian. Os penderfynir bwrw ymlaen â digwyddiad o'r fath, yn dilyn asesiad o'i ddichonoldeb a'r gwerth y mae'n ei gynnig am yr arian, telir y costau o'r gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid BEL 4760.

## ***Argymhelliad 4***

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o'r cwricwlwm mewn addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yn hytrach nag yn rhywbeth sydd wedi'i ychwanegu ar y diwedd, gan osod sgiliau mentergarwch wrth galon y system addysg yng Nghymru. Dylai hefyd ystyried sut y mae modd hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhellach, a'i brif ffrydio yng Nghymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru*.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor** – gan fod y Cwricwlwm Sylfaenol yn cael ei adolygu yn 2014.

- Mae'r adroddiad 14-19, drwy'r cynllun IE, yn dangos y cyrsiau entrepreneuraidd sydd ar gael i ddysgwyr yn ystod CA4 ac Ôl-16.

- Mae Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol. Mae'r rhaglenni astudio ar gyfer pob pwnc yn nodi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu am Yrfaoedd a'r Byd Gwaith a sgiliau entrepreneuraidd allweddol yn barod ar gyfer yr adeg pan fyddant yn gweithio yn y dyfodol. Mae entrepreneuriaeth yn rhan allweddol o'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Anogir ysgolion i roi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio nodweddion entrepreneuriaid

a rôl menter wrth greu cyfoeth. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd.

- Drwy Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid rydym wedi ymrwymo i weithio gydag ystod o gyrff sy'n bartneriaid er mwyn datblygu prosiect strategol i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyflwyno gwell rhaglen Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Fel un o'r meysydd blaenoriaeth bwriadwn geisio cael cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi hyn yn y dyfodol.

- Cyhoeddwyd Dysgu a dilyniant mewn addysg entrepreneuriaeth ym mis Rhagfyr 2012. Mae'n egluro sut y dylai ysgolion a cholegau gynllunio a darparu addysg entrepreneuriaeth, ymgorffori meddylfryd a sgiliau entrepreneuraidd ym mhrofiadau dysgu pobl ifanc a gweithio mewn partneriaeth â busnesau a chyflogwyr lleol.

- Mae Bagloriaeth Cymru eisoes yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau menter tîm. Fel rhan o Elfen Addysg Gysylltiedig â Gwaith Craidd Bagloriaeth Cymru rhaid i bob dysgwr gwblhau gweithgaredd menter tîm ar ba bynnag lefel y mae'n astudio. Mae hyn yn golygu o leiaf 30 awr ar y lefel Uwch a 15 awr ar y lefelau Sylfaen a Chanolraddol a bwriedir i hyn eu helpu i ddeall sut y mae busnesau'n gweithio a datblygu sgiliau entrepreneuraidd.

- Mae cymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru, sydd i fod i gael ei roi ar waith o 2015 ymlaen, yn dilyn argymhellion gan adolygiad annibynnol, sef yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14-19 oed yng Nghymru, yn cynnwys 'Her Menter a Chyflogadwyedd'. Mae Llywodraeth Cymru'n annog pawb i fabwysiadu cymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru a disgwylir y bydd mwy o ymwneud â busnesau a mudiadau gwirfoddol. Drwy wneud Bagloriaeth Cymru'n fwy trylwyr bydd mwy o sicrwydd bod y gweithgareddau hyn yn fuddiol, yn ymestynnol ac yn ystyrlon.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

***Argymhelliad 5***

*Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu pwy ddylai ymgymryd â'r rôl o ddarparu porth cyngor a chyfarwyddyd canolog ar gyfer entrepreneuriaid ifanc a darpar entrepreneuriaid ifanc, a datblygu cynllun o ran yr opsiynau sydd ar gael, ac yna gweithio i sefydlu'r canolfannau hynny ledled Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

- Dechreuodd rhaglen dair blynedd o gyllid entrepreneuriaeth i gefnogi chwe Chanolfan AB/AU Ranbarthol ym mis Medi 2012. Gan weithio gyda'i gilydd, mae hyrwyddwyr entrepreneuriaeth ym mhob Sefydliad Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) yng Nghymru, yn ysgogi diddordeb a chyfranogiad mewn entrepreneuriaeth, yn darparu profiadau ymarferol ac yn hyrwyddo llwybr clir i ddechrau busnes.

- Hyrwyddir Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn benodol drwy wefan Syniadau Mawr Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn 2012-13 gwelwyd cynnydd o 71% yn nifer y sesiynau ar www.SyniadauMawrCymru.com o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Darparwyd 35,050 o sesiynau gwybodaeth i bobl ifanc a oedd yn ystyried dechrau busnes. Yn ychwanegol at hyn cwblhaodd 6848 o bobl ifanc yr hunanasesiad ar-lein i brofi eu sgiliau entrepreneuraidd, 77% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

- Bydd map ffordd, a ddatblygwyd gan Banel y Cynllun Gweithredu IE yn sail i'r gwaith o ailddatblygu'r wefan yn 2014.

- Mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn pennu cwmpas y gwasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu dan rownd nesaf y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Bydd hyn yn cynnwys sut y byddwn yn darparu'r gwasanaeth entrepreneuriaeth ieuenctid a sut y bydd yn cydweddu â'r agenda entrepreneuriaeth ehangach gan gynnwys ein gwasanaeth dechrau busnes.

- Mater arall sy'n cael ei ystyried yw sut y gall rhanddeiliaid allweddol gyfrannu tuag at waith y Panel Entrepreneuriaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru'n cael ei symleiddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Wedi'i gynnwys yn y gyllideb bresennol ac i'w ystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd.

***Argymhelliad 6***

*Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi eglurhad o'r asesiad a wnaeth o effeithiolrwydd Menter yr Ifanc, cyn i arian y fenter gael ei dynnu'n ôl.*

**Ymateb: Gwrthod**

- Yr ysgolion sy'n gyfrifol am gyflwyno menter mewn ysgolion. Lle'r ysgolion yw cyflwyno'r elfennau hyn o'r cwricwlwm.

- Daeth cefnogaeth Gyrfa Cymru i Fenter yr Ifanc Cymru i ben ym mis Mawrth 2013 ac ni fydd yn cael ei hadnewyddu yn dilyn newidiadau a chyfeiriad newydd i gylch gwaith Gyrfa Cymru, sy'n canolbwyntio ar bobl iau hyd at 25 oed. Rhan o'r cylch gwaith newydd fydd darparu gwasanaeth mwy gwahaniaethol, yn canolbwyntio ar grwpiau targed allweddol, er mwyn cefnogi dull mwy ataliol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Nid oedd y penderfyniad i ddod â'r cyllid i ben yn 2013 yn seiliedig ar asesiad o effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd Menter yr Ifanc Cymru. Roedd yn deillio yn hytrach o newidiadau ehangach i gylch gwaith Gyrfa Cymru. Bydd Gyrfa Cymru'n cadw cysylltiadau â Menter yr Ifanc Cymru a nifer o ddarparwyr eraill sy'n darparu gweithgaredd menter ym myd addysg ac yn 'marchnata' eu gwasanaethau i ysgolion. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r ysgolion eu hunain dalu am weithgareddau o'r fath yn awr.

- Bu Menter yr Ifanc Cymru'n cael y gefnogaeth hon ar gyfer ei chostau craidd am tua 15 mlynedd. Bwriadwyd i'r cyllid a ddarperid i Fenter yr Ifanc Cymru fod yn 'arian sefydlu' gyda'r rhan fwyaf o'r costau darparu'n cael eu talu gan ysgolion o ran cofrestru timau, cost deunyddiau a chefnogi staff yr ysgol. Y bwriad oedd y byddai Menter yr Ifanc yn datblygu'n sefydliad hunan-gyllidol.

- O ystyried y newidiadau yn y cylch gwaith a'r toriadau yng nghyllideb Gyrfa Cymru ni fyddai wedi bod yn briodol i Gyrfa Cymru barhau â'r contract gyda Menter yr Ifanc Cymru ar gyfer darparu gwasanaeth o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Gwrthodir yr argymhelliad. Mae'r lleihad yng nghyllid Gyrfa Cymru ers iddo ddod yn is-gorff ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, a'r rhagolygon ariannol, yn golygu bod cefnogaeth i gyrff allanol ar gyfer gweithgaredd o'r fath drwy Gyrfa Cymru yn rhy gostus a hefyd y tu allan i gylch gwaith Gyrfa Cymru erbyn hyn. O ganlyniad, nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol.

***<u>Argymhelliad 7</u>***

*Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu effaith y newid i gylch gwaith Gyrfa Cymru a'r lleihad tymor byr a ragwelir yn y ddarpariaeth o weithgareddau entrepreneuriaeth i bobl ifanc, a chyhoeddi ei chanfyddiadau mewn adroddiad ar weithrediadau Gyrfa Cymru yn ei flwyddyn gyntaf.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

- Yr ysgolion sy'n gyfrifol am gyflwyno menter mewn ysgolion. Lle'r ysgolion yw cyflwyno'r elfennau hyn o'r cwricwlwm.

- Mae'r Gweinidogion yn rhoi cyfarwyddyd i Gyrfa Cymru drwy lythyr cylch gwaith blynyddol. Cyflwynwyd newidiadau sylweddol i'r cylch gwaith sy'n cael ei ddarparu i Gyrfa Cymru gan Weinidogion ym mis Ebrill 2013. Mae'r cylch gwaith diwygiedig yn dweud y dylai Gyrfa Cymru ddal i gynorthwyo ysgolion i gyflwyno menter a chyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth ond y dylai wneud hyn drwy hwyluso cysylltiadau rhwng addysg a busnes a rhwng addysg a darparwyr menter. Mae Gyrfa Cymru wedi cael cyfarwyddyd yn y cylch gwaith nad lle staff Gyrfa Cymru ei hun yw cyflwyno gweithgareddau o'r fath yn uniongyrchol.

- Mae swyddogion polisi'r Adran Addysg a Sgiliau'n gweithio mewn cysylltiad agos â thîm rheoli Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod ei gylch gwaith yn cael ei gyflawni, a bod gweithgareddau monitro ac adolygu'n cael eu cyflawni drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a gwerth am arian.

- Rôl Gyrfa Cymru ym maes entrepreneuriaeth bellach yw hwyluso a chefnogi ysgolion e.e. hwyluso cysylltiadau â chyflogwyr a darparwyr menter megis Menter yr Ifanc Cymru, Achievers International a Business Dynamics.

- Canfu arolwg thematig Estyn o'r modd y mae ysgolion yn cyflwyno Fframwaith y Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, a arweiniodd at yr adroddiad Penderfyniadau Gwybodus: Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith – Hydref 2012, nad yw llawer o ysgolion yn cyflwyno'r fframwaith hwn yn dda. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd i'r afael â'r gofyniad hwn drwy raglen ddatblygu, â chymorth Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd o bosibl, er mwyn gwella a chynyddu gallu ysgolion i gyflwyno addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ac addysg entrepreneuriaeth. Mae'r gwaith o ddatblygu'r prosiect ESF yn ei gamau cynnar ond mae Gyrfa Cymru'n rhanddeiliad pwysig ac yn cymryd rhan yn y trafodaethau i ddatblygu cynnig y prosiect.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid yw'r gofyniad i adolygu perfformiad Gyrfa Cymru ar sail darparu entrepreneuriaeth yn bodoli yn dilyn y newid yn y cylch gwaith yn 2013-14. Bydd Gyrfa Cymru'n cyflwyno adroddiad blynyddol yn asesu ei berfformiad ar sail ei gylch gwaith, sy'n cynnwys ymgysylltu â chyflogwyr a phartneriaeth rhwng addysg a busnes, i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

Nid oes arian dros ben ar gael i wneud adolygiad o'r fath ym mlwyddyn gyntaf cylch gwaith newydd Gyrfa Cymru (2013-14). Ni fyddai ychwaith yn bosibl nac yn briodol i geisio caffael adolygiad o'r fath a'i wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

***Argymhelliad 8***

*Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r amrywiaeth o gynlluniau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc sy'n sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys darparu rhagor o gyfleusterau deori busnesau, a chyda phartneriaid – gan gynnwys Menter yr Ifanc ac Ymddiriedolaeth y Tywysog – amlinellu eu rôl ar gyfer y dyfodol yn strategol a daearyddol o ran darparu'r Cynllun Gweithredu IE, gweithgarwch mentergarwch o fewn Bagloriaeth Cymru ac unrhyw arian cymesurol.*

**Ymateb: Derbyn**

- Mae'r swyddogion wrthi'n pennu cwmpas y gwasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu dan rownd nesaf y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Bydd hyn yn cynnwys sut y byddwn yn darparu'r gwasanaeth entrepreneuriaeth ieuenctid a sut y bydd yn cydweddu â'r agenda entrepreneuriaeth ehangach gan gynnwys ein gwasanaeth dechrau busnes.

- Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried y gefnogaeth ehangach amrywiol ar gyfer entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru a sut y mae'r cyfan yn cydweddu i'w gilydd.

- Ystyrir hefyd sut y gall rhanddeiliaid allweddol gyfrannu tuag at waith y Panel Entrepreneuriaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru'n cael ei symleiddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Wedi'i gynnwys yn y gyllideb bresennol ac i'w ystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd.

***Argymhelliad 9***

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arferion da sy'n cael eu datblygu gan y Canolfannau Entrepreneuriaeth Rhanbarthol yn cael eu rhannu ledled Cymru, ac y dylid eu hysbysebu'n fwy amlwg yn eu hardaloedd lleol.*

**Ymateb: Derbyn**

- Mae'r Canolfannau Entrepreneuriaeth Rhanbarthol wedi cael eu sefydlu er mwyn annog cydweithrediad, cysylltu â datblygiadau economaidd ehangach a darparu llwybr clir er mwyn i bobl ifanc allu cymryd y camau nesaf tuag at entrepreneuriaeth/dechrau busnes.

- Mae trefniadau'n cael eu sefydlu er mwyn rhannu arferion da a ddatblygwyd gan y Canolfannau Rhanbarthol ar sail ranbarthol a chenedlaethol. Bydd angen i'r

model “siop un stop” hwn gael ei werthuso a’i ystyried fel model posibl ar gyfer darparu yn y dyfodol.

- Rydym yn dathlu ac yn annog entrepreneuriaeth yn flynyddol yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd gan annog pobl o bob oed i ddatblygu eu syniadau busnes a chynyddu ymwybyddiaeth o’r cymorth a’r gefnogaeth sydd ar gael i ddechrau busnes yng Nghymru. Mae 428 o ddigwyddiadau wedi’u trefnu yn 2013; 14% o gyfanswm y Deyrnas Unedig.

- Mae’r bartneriaeth ADEPTT yn dod â 13 o bartneriaid o 8 gwlad (Sbaen, Gwlad yr Iâ, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Cymru, Lloegr, Portiwgal, yr Almaen a Norwy) at ei gilydd i gyfnewid arferion gorau’r gwahanol ranbarthau er mwyn datblygu a threialu model hyfforddi arloesol a fydd yn helpu i gefnogi a gwella arferion addysgu entrepreneuraidd.

**Goblygiadau Ariannol** – Wedi’i gynnwys yn y gyllideb bresennol ac i’w ystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd.

***Argymhelliad 10***

*Dylai Llywodraeth Cymru annog a chymell mwy o bobl ifanc i allu dysgu a rhannu sgiliau drwy rwydweithio a mentora, a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant un-i-un gan ystod fwy amrywiol o fentoriaid.*

**Ymateb: Derbyn**

- Lansiwyd her Syniadau Mawr Cymru sy’n cael ei harwain gan fusnesau ym mis Hydref 2013. Mae’n rhoi cyfle i bobl ifanc 16-24 oed rwydweithio a chael cefnogaeth bwrpasol gan fusnesau er mwyn datblygu eu syniadau busnes.

- Sefydlwyd rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint gan bartneriaid rhanbarthol allweddol er mwyn hyrwyddo entrepreneuriaeth ieuenctid. Cynhaliwyd digwyddiad cychwynnol ar gyfer entrepreneuriaid ifanc ym mis Tachwedd 2012. Ar hyn o bryd mae’r swyddogion yn gweithio gyda’m Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth Busnes, Askar Sheibani, er mwyn gwerthuso’r clwb menter ac ystyried y posibilrwydd o’i gyflwyno’n raddol i rannau eraill o Gymru.

- Mae gwasanaeth mentora busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig Cymreig wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei lansio ym mis Hydref 2012. Mae mentoriaid yn cael eu recriwtio ac yn cael eu cyfateb ag unigolion i’w mentora.

- Drwy wasanaethau Busnes Cymru bydd entrepreneuriaid ifanc hefyd yn cael eu cefnogi drwy’r Gwasanaeth Cychwyn Busnes i Raddedigion, Cymorth Cychwyn Busnes, ynghyd â chefnogaeth arall a gynigir gan bartneriaid megis Ymddiriedolaeth y Tywysog a Go Wales. Mae’r gefnogaeth yn cynnwys gweithdai, cyngor un-i-un, cyllid a mentora

**Goblygiadau Ariannol –** Wedi’i gynnwys yn y gyllideb bresennol ac i’w ystyried wrth ddatblygu rhaglen newydd yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fydd yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd.